



## Ysgoloriaeth Goffa D Lloyd Thomas

*Darperir yr Ysgoloriaeth hon o'r incwm o rodd i Brifysgol Cymru ym mis Mehefin 1989 gan deulu a chyfeillion y diweddar D Lloyd Thomas BSc PhD (Llundain), brodor o Faesteg, un o raddedigion y Brifysgol a fu'n addysgu yng Ngholeg Imperial, Llundain.*

1. Dyfernir ysgoloriaeth, o'r enw Ysgoloriaeth Goffa D Lloyd Thomas, a fydd yn werth tua £1000<sup>1</sup>, o dro i dro gan UWRET, ar yr amod bod ymgeisydd addas ar gael.
2. Bydd yr ysgoloriaeth ar gael, am gyfnod o dair blynedd fel rheol, yn y Sefydliadau Achrededig yn Aberystwyth ac Abertawe, y naill ar ôl y llall.<sup>2</sup>
3. Bydd yr ymgeiswyr ar gyfer yr ysgoloriaeth yn siarad Cymraeg, wedi eu derbyn i ddechrau cynllun gradd israddedig yn y sefydliad perthnasol, ac yn gallu bodloni gofynion matricwleiddio'r Brifysgol. Hefyd, byddant naill ai wedi eu geni, neu wedi bod yn preswyllo, o fewn Sir Morgannwg Ganol. Rhoddir blaenoriaeth i unrhyw ymgeisydd o'r fath a anwyd, neu a fu'n preswyllo, yn ardal Maesteg (fel y'i diffinnir gan ffiniau Bwrdeistref Ogwr).
4. Os gall nifer o ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth fodloni amodau Rheoliad 3 uchod, penderfynir dyfarniad yr ysgoloriaeth ar sail perfformiad cymharol yr ymgeiswyr yn yr arholiad Safon Uwch TAG neu arholiad cyfatebol.
5. Ni ddyfernir ysgoloriaeth ac eithrio i ymgeisydd teilwng.
6. Ni fydd myfyriwr sydd eisoes wedi dechrau cynllun astudio ar gyfer un o raddau'r Sefydliad yn gymwys i gael dyfarniad.
7. Cyhyd ag y caiff UWRET adroddiad boddhaol oddi wrth y sefydliad ynghylch ymddygiad a chynnydd yr Ysgolhaig ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, gellir adnewyddu'r ysgoloriaeth am ddwy flynedd arall.<sup>3</sup>
8. Os na ddyfernir ysgoloriaeth mewn blwyddyn benodol, caiff unrhyw incwm cronol o'r Gronfa ei ychwanegu at y swm cyfalaf a chaiff y gystadleuaeth nesaf am y dyfarniad ei chynnal yn y flwyddyn ganlynol.
9. Os na ddyfernir ysgoloriaeth am dair blynedd o'r bron am nad oes ymgeiswyr cymwys ar gael, gellir anwybyddu'r amod preswyllo ym Mharagraff 3 er mwyn caniatáu rhoi dyfarniad yn y flwyddyn ganlynol.
10. Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno i Gofrestrydd y Sefydliad perthnasol, erbyn 15 Medi yn y flwyddyn honno.

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Dangosir gwybodaeth am y Sefydliad perthnasol ar y wefan
3. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael